Concordat Gofal mewn Argyfwng i Gymru

Iechyd Meddwl

# Cynllun Gweithredu Cenedlaethol 2022

**Darparu gwasanaethau o ansawdd uchel bob awr o'r dydd**

## Cyflwyniad

Mae'r cynllun gweithredu cenedlaethol hwn ar ofal mewn argyfwng wedi cael ei ddiwygio a’i ddiweddaru, a dyma’r cynllun tymor byr ar gyfer 2021 i 2022. Mae'n berthnasol i bobl o bob oed, a’i brif egwyddor yw helpu pobl pan fyddant yn profi, neu ar fin profi, argyfwng iechyd meddwl. Bydd cynllun mwy manwl, tymor hwy ar gyfer gwasanaethau gofal mewn argyfwng yn cael ei ddatblygu ar ôl cyhoeddi olynydd i’r strategaeth ‘Law yn Llaw at Iechyd Meddwl’, a chaiff ei lywio gan adolygiad Uned Gyflawni'r GIG o wasanaeth argyfwng y GIG. Mae'r cynllun gweithredu yn adlewyrchu ymrwymiad ar y cyd ar draws y sefydliadau a gynrychiolir ar y Bwrdd Sicrwydd a Chynghori Gofal mewn Argyfwng Iechyd Meddwl i weithio mewn partneriaeth i wella'r ymateb amlasiantaethol i ofal mewn argyfwng.

Prif nodau'r cynllun gweithredu hwn yw:

- Sicrhau bod cymorth a chefnogaeth ar gael yn gynharach i bobl o bob oed gan amrywiaeth o asiantaethau gan gynnwys gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector
- Sicrhau bod darparwyr gwasanaethau yn cydweithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel mewn ffordd gydgysylltiedig
- Cynyddu nifer y mannau diogel anghlinigol sydd ar gael pan fydd pobl mewn angen ac annog pobl i’w defnyddio’n fwy
- Sicrhau bod cymorth, gofal a thriniaeth yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion pobl o wahanol gymunedau

## ‘Tu hwnt i'r Alwad’

Yn dilyn cyhoeddi adroddiad Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol GIG Cymru, ‘Tu hwn i’r alwad – Adolygiad Cenedlaethol o Fynediad at Wasanaethau Brys i’r Rheiny sy’n Profi Pryderon Iechyd Meddwl a/neu Lesiant’ ym mis Hydref 2020, cynhaliodd is-grŵp o'r Bwrdd Sicrwydd a Chynghori Gofal mewn Argyfwng adolygiad o’i ganfyddiadau a'i argymhellion gan ofyn pa gamau pellach yr oedd angen eu cymryd, gan bwy ac erbyn pryd.

Argymhelliad cyntaf yr adroddiad oedd 'Dylai gwasanaethau'r sector cyhoeddus sicrhau y cesglir ac y rhennir data amser real, cyson ynghylch galw iechyd meddwl/llesiant a mabwysiadu diffiniadau cyffredin ar gyfer argyfwng iechyd meddwl ac ystod o bryderon lles.' Mae camau gweithredu sy'n ymwneud â chasglu a rhannu data wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu interim hwn. At ddiben ei adolygiad, mae argyfwng iechyd meddwl a/neu lesiant yn disgrifio ‘unrhyw sefyllfa lle mae digwyddiad yn ymwneud â diogelwch y cyhoedd neu lesiant unigol yn ysgogi galwad i’r gwasanaethau brys ac yn gysylltiedig ag iechyd meddwl neu lesiant person.’

Cyfeirir yn y tabl isod at pan fo'r cam gweithredu yn ymwneud ag argymhelliad yn yr adroddiad ‘Tu Hwnt i'r Alwad’.

## Diffinio ‘argyfwng’

Mae nifer o ddiffiniadau a ffyrdd eraill o ymdrin â'r hyn y mae ‘argyfwng’ yn ei olygu, a rhoddwyd llawer o ystyriaeth i ddeall cysyniadau ‘argyfwng cymdeithasol’ o gymharu ag ‘argyfwng iechyd meddwl/argyfwng seiciatrig’ a ‘phryderon llesiant’. Yn aml, mae'r drafodaeth ynghylch y cysyniadau hyn wedi canolbwyntio ar rôl darparwyr gwasanaethau wrth fynd i'r afael â'r anghenion hyn.

Mae dull o roi ‘gofal mewn argyfwng’ drwy ddarparu gwasanaethau yn aml yn cael ei lywio gan feini prawf cymhwysedd gwasanaethau lle mae gwasanaethau'n darparu ymatebion penodol i bobl sydd wedi cael diagnosis o ‘salwch meddwl’ neu bobl sy'n profi sefyllfa lle maent yn teimlo'n agored i niwed ac lle gallent fod ag anghenion cymdeithasol, emosiynol neu glinigol. Mae dull/diffiniad sy'n canolbwyntio ar risg yn canolbwyntio ar bobl y credir eu bod mewn perygl, boed yn seicolegol, yn gymdeithasol neu'n gorfforol a gall gynnwys asesu risg iddynt hwy eu hunain neu i eraill. Mae amryw o ddulliau eraill hefyd.

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn canolbwyntio ar ddarparu cymorth, cyngor, gofal, cefnogaeth a thriniaeth amserol i unrhyw un sy'n teimlo eu bod wedi'u llethu ac sy'n methu ymdopi'n emosiynol a/neu'n seicolegol. Mae'r termau ‘argyfwng’ a ‘gofal mewn argyfwng’ yn cwmpasu ystod eang o gyflyrau a sefyllfaoedd a fydd fel arfer yn gofyn am ymateb amlasiantaethol. Beth bynnag yw anghenion brys pobl, bydd angen cyngor a/neu wasanaethau arnynt, sydd ar gael yn rhwydd, er mwyn eu diwallu. Un her allweddol wrth gynllunio, a darparu gwasanaeth ymatebol yw cydnabod bod canfyddiad pob unigolyn o argyfwng yn unigryw. Gall rhywbeth y gallai un person ymdopi ag ef, lethu person arall.

## Gweithio mewn Partneriaeth

Nid yw darparu gwasanaethau i gefnogi pobl mewn argyfwng, neu i atal pobl rhag mynd i argyfwng, yn gyfrifoldeb ar unrhyw un gwasanaeth. Mae'n fater i wasanaeth cyhoeddus a'r trydydd sector, ac mae gan bob sefydliad partner rôl i'w chwarae wrth ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion pobl mewn modd gwybodus. Mae'n bwysig bod gan bob sector ddealltwriaeth glir o ddarpariaeth gwasanaeth, cymhwysedd a meini prawf mynediad ei gilydd, ac i wasanaethau cyhoeddus sicrhau bod dull gweithredu cydgysylltiedig a hyblyg ar gael.

Yr hyn sy’n hollbwysig yw y dylai defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, cymunedau lleol a sefydliadau'r trydydd sector gael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau. Dylai partneriaid sicrhau bod gwybodaeth hygyrch ar gael yn eang fel bod pobl yn gwybod ble i fynd pan fyddant mewn argyfwng neu'n teimlo bod eu hiechyd meddwl yn dirywio.

## Llywodraethu, atebolrwydd, a sicrwydd

Mae Byrddau/Fforymau Concordat Gofal mewn Argyfwng amlasiantaethol rhanbarthol wedi'u sefydlu yn ardal pob Bwrdd Iechyd. Mae'r Byrddau/Fforymau hyn yn darparu mecanwaith i gyflawni newid a gwelliant. Dylai fod gan bob Bwrdd/Fforwm y cylch gorchwyl diweddaraf a dylent fod yn cynhyrchu adroddiadau diweddaru/sicrwydd chwarterol ar gyfer y Bwrdd Sicrwydd a Chynghori Gofal mewn Argyfwng cenedlaethol. Bydd yr adroddiadau diweddaru hyn yn rhoi hyder bod y camau a nodir yn y cynllun gweithredu cenedlaethol hwn yn cael eu rhoi ar waith ar lefel ranbarthol lle caiff cynnydd ei gyflawni a'i sicrhau drwy gynlluniau gweithredu rhanbarthol.

Dylai adroddiadau diweddaru gynnwys unrhyw ddata allbwn a chanlyniadau sydd ar gael i ddangos cynnydd, tynnu sylw at gyflawniadau allweddol, a dangos sut mae cyllid ychwanegol yn helpu i sicrhau canlyniadau.

Dylent hefyd nodi unrhyw heriau neu rwystrau i roi cynlluniau gweithredu ar waith a nodi pa gamau unioni sy'n cael eu cymryd. Dylai Byrddau/Fforymau Rhanbarthol hefyd sicrhau bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael gwybod am y cynnydd a wneir.

Bydd Cadeirydd y Bwrdd Gofal mewn Argyfwng cenedlaethol yn darparu adroddiad bob deufis ar y prif bwyntiau ar gyfer Bwrdd Cyflawni a Goruchwylio’r Gweinidog ar Iechyd Meddwl, ac yn cynhyrchu adroddiad blynyddol ar gynnydd, prif lwyddiannau, ac unrhyw risgiau a heriau a nodwyd ar gyfer y dyfodol.

| Rhif | Cam Gweithredu | Amserlen | Dan arweiniad | Dangosyddion canlyniadau ac allbwn |
|---|---|---|---|---|
| **1.** | Pob Rhanbarth i fod â phrotocol amlasiantaethol ar waith rhwng sefydliadau iechyd, awdurdodau lleol, yr heddlu a'r trydydd sector, wedi'i gyhoeddi (ar wefannau partneriaid) a'i ddiweddaru bob blwyddyn yn nodi:<br><br>• Sut y dylai'r cyhoedd gael gofal pan fyddant mewn argyfwng<br>• Rôl a chyfrifoldeb pob asiantaeth mewn perthynas â darparu gwasanaethau gofal mewn argyfwng<br>• Meini prawf ar gyfer cael mynediad at wasanaethau mewn modd amserol<br>• Y trefniadau sydd ar waith ar gyfer trosglwyddo pobl yn briodol ac yn ddiogel rhwng gwasanaethau ac ar draws gwasanaethau<br>• Y trefniadau gwasanaeth sydd ar waith i ddiwallu anghenion penodol pobl o gymunedau lleiafrifol a lleiafrifoedd ethnig<br>• Sut y caiff gwybodaeth ei rhannu ar draws asiantaethau, er mwyn helpu i lywio'r gwaith o gyflawni a gwella canlyniadau i bobl sy'n dweud eu bod mewn argyfwng | Erbyn Mehefin 2022 | Byrddau/fforymau gofal mewn argyfwng amlasiantaethol rhanbarthol | Pob Rhanbarth i sefydlu dulliau gweithio amlasiantaethol safonol ar gyfer darparu gwasanaethau gofal mewn argyfwng a ddisgrifir mewn protocol aml-asiantaeth<br><br>• Trefniant cytûn wedi'i sefydlu ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau<br>• Pan fydd person yn nalfa'r heddlu, bydd gan bob gwasanaeth heddlu systemau a phrosesau sy'n helpu i roi gwybod am sut i adnabod anghenion iechyd meddwl yn gynnar a'r dulliau o gyfeirio pobl yn brydlon at y gwasanaeth cymorth priodol. (Dylid cynnwys amserlenni o fewn y protocol rhanbarthol)<br>• Systemau adborth ar waith sy'n rhoi gwybodaeth am briodoldeb gofal a phrydlondeb pobl sydd wedi defnyddio gwasanaethau gofal mewn argyfwng, gan gynnwys adborth penodol gan bobl o gymunedau ethnig a chan bobl y mae alcohol neu gyffuriau yn effeithio arnynt |

| Rhif | Cam Gweithredu | Amserlen | Dan arweiniad | Dangosyddion canlyniadau ac allbwn |
|---|---|---|---|---|
| | • Trefniadau ar gyfer sut y bydd pobl sy'n cael eu heffeithio gan alcohol neu gyffuriau, ac sydd â chyflwr iechyd meddwl, yn cael gwasanaeth amserol a phriodol | | | |
| 2. | Byrddau Iechyd ac awdurdodau lleol yn datblygu cynlluniau ar y cyd, gan weithio gyda'r trydydd sector a phartneriaid eraill, i sicrhau bod pobl o bob oed sy'n profi arwyddion cynnar o argyfwng iechyd meddwl personol, emosiynol yn cael mynediad 'y tu allan i oriau' at wasanaeth/cyfleuster 'lle diogel i fynd', a gwasanaeth ar-lein neu dros y ffôn, ar gyfer seibiant, diogelwch, neu i helpu i osgoi argyfwng (Tu hwnt i'r Alwad, argymhelliad 8) | Cynllun ar waith erbyn Mawrth 2022<br>Gwasanaeth ar waith Hydref 2022 | Byrddau Iechyd ac ALlau yn adrodd ar gynnydd bob chwarter i fyrddau/fforymau gofal mewn argyfwng amlasiantaethol rhanbarthol | • Pob Rhanbarth i fod â chynllun ar waith sy'n adlewyrchu anghenion lleol ac yn rhoi gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar waith 'y tu allan i oriau', a'r model darparu<br>Cynlluniau i gynnwys:<br>o Sut mae gwasanaeth 'y tu allan i oriau' yn cael ei rannu/hyrwyddo<br>o Sut mae'r ddarpariaeth hon yn cyd-fynd â modelau gwasanaeth lleol ehangach<br>o Sut y gellir cael gafael ar wasanaeth |

| Rhif | Cam Gweithredu | Amserlen | Dan arweiniad | Dangosyddion canlyniadau ac allbwn |
|---|---|---|---|---|
| 3. | Pob sefydliad i fod yn rhan o'r cynlluniau peilot 111 a sicrhau bod gan bobl o bob oed sydd ag angen brys fynediad bob awr o’r dydd at gymorth iechyd meddwl, a bod llwybrau atgyfeirio/cyfeirio clir ar gael i bobl lle bo angen, e.e., gwasanaethau cymdeithasol y tu allan i oriau, cymorth lles, cyllid/dyled, cymorth mewn achosion o gam-drin domestig, ac ati.<br>(Tu hwnt i'r Alwad Argymhellion 6) | Erbyn Hydref 2022 | Bwrdd Gofal Heb ei Drefnu | • Gostyngiad yn nifer y bobl â phroblemau iechyd meddwl sy'n cysylltu â'r gwasanaethau brys drwy 999<br>• Gostyngiad yn y defnydd amhriodol o adran 136<br>• Gwasanaeth 111 ar waith gydag un pwynt mynediad ledled Cymru gyda chysylltiadau amlasiantaethol clir â'i ddull o weithio |
| 4. | Bod gan bobl o bob oed sy'n defnyddio gwasanaeth iechyd meddwl eilaidd 'Gynllun Argyfwng' o ansawdd uchel, sy'n adlewyrchu gofynion Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys datganiad ymlaen llaw y cytunwyd arno ar y cyd, a manylion y cymorth sydd wedi'i gynllunio i helpu i atal a/neu liniaru unrhyw argyfwng posibl yn y dyfodol<br>(Tu hwnt i'r Alwad Argymhelliad 4) | Erbyn Mehefin 2022 | Byrddau Iechyd yn adrodd i fyrddau/fforymau gofal mewn argyfwng amlasiantaethol rhanbarthol | • Tystiolaeth drwy archwilio cynlluniau argyfwng yn rheolaidd (fel rhan o archwiliad Cynlluniau Gofal a Thriniaeth) gyda chanfyddiadau'n cael eu hadrodd bob chwarter i fwrdd/fforwm gofal mewn argyfwng amlasiantaethol<br>• Adborth gan 'ddefnyddiwr gwasanaeth' yn ystod adolygiad y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth<br>• Gostyngiad yn nifer y derbyniadau i'r ysbyty |

| Rhif | Cam Gweithredu | Amserlen | Dan arweiniad | Dangosyddion canlyniadau ac allbwn |
|---|---|---|---|---|
| | | | | • Llai o alw ar wasanaethau 999 i bobl sy'n hysbys i wasanaethau iechyd meddwl |
| 5. | ‘Bydd pob asiantaeth yn sicrhau bod gan y rhai sy’n bwynt cyswllt cyntaf â phobl mewn trallod yr wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau angenrheidiol i sicrhau y darperir gofal sy’n dosturiol ac yn gefnogol’<br><br>*(Siarad â fi 2, Amcan 2vi)* | Erbyn Mawrth 2022 | Byrddau/fforymau gofal mewn argyfwng amlasiantaethol rhanbarthol | • Asiantaethau i sefydlu rhaglen hyfforddi sy'n adlewyrchu ‘Siarad â fi 2,  Amcan 2vi’. Adrodd yn flynyddol ar y nifer sy'n manteisio ar hyfforddiant, i fyrddau/fforymau gofal mewn argyfwng amlasiantaethol rhanbarthol<br>• Ar ôl hyfforddiant, gweithredu proses werthuso gyda: - Y staff sydd wedi'u hyfforddi<br>• Pobl sydd wedi defnyddio'r gwasanaethau |

| Rhif | Cam Gweithredu | Amserlen | Dan arweiniad | Dangosyddion canlyniadau ac allbwn |
|---|---|---|---|---|
| 6. | Dylai pobl sy'n cael eu rhyddhau o ofal seiciatrig i gleifion mewnol gael asesiad dilynol gan y gwasanaeth o fewn 72 awr i pan gawsant eu rhyddhau a dylai cynllun gofal cynhwysfawr fod ar waith pan cânt eu rhyddhau ac yn ystod absenoldeb cyn rhyddhau<br><br>Ymchwiliad Cyfrinachol Cenedlaethol i Hunanladdiad a Diogelwch mewn Iechyd Meddwl (NCISH) (adroddiad 2019 tud 6) [arddangos.aspx (manchester.ac.uk)] | Erbyn Mehefin 2022 | Byrddau Iechyd i adrodd i fyrddau/fforymau gofal mewn argyfwng amlasiantaethol rhanbarthol | • Arferion gweithio gweithredol ar waith sy'n adlewyrchu canllawiau NCISH<br>• Gwybodaeth i'w chyfleu i'r unigolyn a'i feddyg teulu o fewn 24 awr ar ôl ei ryddhau a, lle bo'n briodol, copi i'r tîm cymunedol a gwasanaethau arbenigol eraill<br>• Cynlluniau Gofal a Thriniaeth diwygiedig i fod ar waith i adlewyrchu unrhyw newid yn anghenion gofal unigolyn |
| 7. | Bydd adborth a safbwyntiau'n cael eu ceisio a'u casglu'n systematig gan bobl o bob oed sydd wedi defnyddio gwasanaethau gofal argyfwng, ac wedi gweithredu arnynt, gan gynnwys adborth penodol gan bobl o gymunedau lleiafrifol a chymunedau ethnig | Erbyn Mehefin 2022 | Pob partner | • Dull adborth defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei gyflwyno a'i adrodd bob chwarter i fyrddau/fforymau gofal argyfwng amlasiantaethol |

| Rhif | Cam Gweithredu | Amserlen | Dan arweiniad | Dangosyddion canlyniadau ac allbwn |
|---|---|---|---|---|
| 8. | Bydd gan wasanaethau'r sector cyhoeddus sy'n rheoli neu'n comisiynu cyfleusterau sy'n gofalu am bobl sy'n agored i niwed brotocol 'person coll' cadarn ar waith. Dylai'r protocolau hyn bennu mesurau ataliol i leihau galwadau am bobl coll i'r<br><br>Heddlu, megis rheoli risg yn rhagweithiol ('Tu Hwnt i'r Alwad' Argymhelliad 5) | Erbyn Mehefin 2022 | Pob partner | • Protocol personau coll yn cael ei weithredu ym mhob Rhanbarth<br><br>• Llai o bobl yn cael eu riportio ar goll<br><br>• Llai o alwadau am bobl ar goll i'r heddlu |

## Pedair egwyddor graidd y Concordat Gofal mewn Argyfwng a rhai enghreifftiau ymarfer

## Mynediad at gymorth cyn argyfwng

- Mynediad cyflym a hawdd i wasanaethu
- Lle diogel i fund, a chymorth dros y ffôn/ar-lein
- Cymorth arbenigol ar gaelmewn gofal sylfaenol
- Llinellau cymorth; Cymorth cymheiriaid; Cynlluniau gofal mewn argyfwng
- Protocolau y cytunwyd arnynt rhwng asiantaethau

## Mynediad brys at wasanaethau diogel gofal mewn argyfwng

- Un pwynt mynediad at wasanaethau iechyd meddwl arbenigol 24/7
- Asesiad cychwynnol cyflym
- Gwasanaethau "Mynediad Agored'
- Amgylcheddau Diogel

## Ansawdd y driniaeth a'r gofal pan fydd rhywun mewn argyfwng

- Ymyriadau a gweithgareddau therapiwtig
- Defnydd lleiaf posibl o ataliad
- Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth i ddylunio, cynllunio a darparu gwasanaethau
- Gwybodaeth, Cyngor a mynediad at wasanaethau eirioli
- Tystiolaeth o fodloni safonau gofal

## Adfer a gwella/atal argyfyngau yn y dyfodol

- Cynllunio ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty yn dechrau'n gynnar
- Pobl yn cael eu cefnogi gartref lle bo'n briodol
- Adborth a safbwyntiau wedi'u casglu'n systematig gan bobl sydd wedi Defnyddio gwasanaethau
- Protocolau personau coll yn eu lle

## Argymhellion ‘Tu Hwnt I’r Alwad’

1. Dylai gwasanaethau'r sector cyhoeddus sicrhau y cesglir ac y rhennir data amser real, cyson ynghylch galw iechyd meddwl/l lesiant a mabwysiadu diffiniadau cyffredin ar gyfer argyfwng iechyd ac ystod o bryderon llesiant.

2. Dylid fod yna gydweithio effeithiol rhwng gwasanaethau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector i wella canlyniadau i bobl sy'n profi argyfwng iechyd meddwl neu’n ceisio cymorth ar gyfer pryderon llesiant, wedi'i gyfundrefnu drwy fframwaith cenedlaethol sy'n cynnwys safonau amlasiantaethol, mesurau system gyfan a dangosyddion ar gyfer llwyddiant.

3. Rhaid i adrannau atebol Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyfrifol y sector cyhoeddus sicrhau bod cymorth ar gael ac yn hygyrch, ar yr adegau gofynnol, i fynd i'r afael â phryderon llesiant brys megis dementia, camddefnyddio sylweddau, dyled a digartrefedd.

4. Rhaid i wasanaethau gofal eilaidd iechyd meddwl y GIG sicrhau bod gan unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau ar hyn o bryd, gynlluniau argyfwng yn eu lle sy’n adeiladu ar anghenion yr unigolyn, gwytnwch personol a chamau ataliol.

5. Rhaid i wasanaethau'r sector cyhoeddus sy'n rheoli neu gomisiynu cyfleusterau sy'n gofalu am bobl fregus sicrhau bod ganddynt brotocol ‘unigolion coll' cadarn yn ei le. Dylai'r protocolau hyn nodi mesurau ataliol i leihau galwadau unigolion coll i'r heddlu, megis rheoli risg yn rhagweithiol.

6. Dylai GIG Cymru hwyluso mynediad at weithwyr iechyd proffesiynol arbenigol drwy un pwynt mynediad, megis gwasanaeth 111 GIG Cymru. Rhaid i'r gwasanaeth gael cysylltiadau cryf â’r trydydd sector a chymorth hunangymorth a darparu llwybrau atgyfeirio i ofal sylfaenol, yr heddlu a staff meddygol brys

7. Dylai pob asiantaeth yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector hyrwyddo dull wedi’i lywio gan drawma i argyfwng.

8. Dylai'r sector cyhoeddus ddarparu, lle bynnag y bo’n bosibl mewn partneriaeth â'r trydydd sector, ystod o wasanaethau atal neu ymateb i argyfwng gan gynnwys caffis neu noddfeydd, cymorth i ddefnyddwyr dwysedd uchel, triniaeth gartref a chymorth gofal sylfaenol.

9. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal ymgyrch cyfathrebu genedlaethol i sicrhau bod unigolion, gofalwyr ac aelodau o'r teulu yn gwybod pwy i gysylltu â nhw am gymorth neu gyngor iddynt eu hunain ac eraill sydd mewn argyfwng.

10. Dylai Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus ac asiantaethau'r trydydd sector sicrhau bod anghenion unigolion sy'n agored i niwed yn cael eu cydnabod a'u diwallu wrth gyflwyno mewn argyfwng. Rhaid i bob asiantaeth ymgysylltu ag unigolion neu gynrychiolwyr o'r grwpiau hyn i leihau'r rhwystrau i gael cymorth mewn argyfwng.